

Beirniadaeth ar gyfer y Cyfansoddiadau.

Cystadleuaeth 376. Ymson cymeriad mewn hanes.

Beirniad – Sian Rees

Byddwn wedi hoffi gwobrwyo pob un o'r 120 ymgais a dderbyniwyd! Roedd cyflwyniad pob un yn gymen ac mewn ffont addas. Un neu ddau'n unig oedd mewn llawysgrifen. Ar y cyfan, cymharol ychydig o wallau iaith oedd yn yr ymsonau. Hoffwn longyfarch athrawon Bl.5 a 6 hefyd am eu haddysgu ardderchog: roedd amrywiaeth y cymeriadau hanesyddol a gyflwynwyd yn dangos gwybodaeth fanwl ac ôl ymchwilio trylwyr.

Cawsom ymsonau: Hedd Wyn, Branwen, y Santes Dwynwen, Rosa Parks, Llywelyn Fawr, Seithennyn, Siôn Cwilt, Twm Carnabwth, Neil Armstrong ac Owain Glyndŵr. Roedd yr hen ffefrynnau hyn i'w disgwyl wrth gwrs ond yn fwy annisgwyl roedd ymsonau Amelia Earhart, Emmeline Pankhurst, Sarnicol, Dylan Thomas, Tchaikowsky, Brunel, Derwen yn y 'Diff' (Coeden dderwen yng Nghaerdydd), Tip glo rhif 7 yn Aberfan, Maria Stella Patronella a Colin McRae ymhlith eraill.

Rhaid cofio mai 'Fi' a 'Rwan/Nawr' sy'n hollbwysig gyda'r ffurf hon a llwyddodd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr i lunio ymsonau gafaelgar. Fodd bynnag, syrthiodd rhai i'r fagl o lunio hunangofiant a dyddiaduron, gan gyflwyno gwybodaeth am y cymeriad yn y trydydd person (yn ogystal â'r person cyntaf) ac yn yr amser gorffennol.

Roedd y goreuon yn gyfuriog o ddelweddau a chymariaethau gwreiddiol, o briod-ddulliau, diarhebion a dywediadau difyr. Roeddent yn dangos aeddfedrwydd rhyfeddol a'u hiaith yn gywir a graenus.

Llongyfarchiadau i'r tri a ddaeth i'r brig:

1. <i>Willie Llewelyn</i>	gan Enfys Amryliw	376/48
2. <i>Jemima Nicholas</i>	gan Eirlys Bowen	376/12
3. <i>Anne Frank</i>	gan Cariad Cymru	376/83

Ceir Beirniadaeth lawnach ar wefan yr Urdd.